

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Llanyrafon - Meddygfa
Pentref Cwmbrân, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 4 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. What we did	5
2. Summary of inspection	6
3. What we found	10
• Quality of Patient Experience.....	10
• Delivery of Safe and Effective Care.....	16
• Quality of Management and Leadership	23
4. Next steps.....	25
Appendix A - Summary of concerns resolved during the inspection	26
Appendix B - Immediate improvement plan.....	27
Appendix C - Improvement plan	34

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Llanyrafon, sef un o ganghennau Meddygfa Pentref Cwmbrân, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 4 Hydref 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod Meddygfa Llanyrafon yn ymdrechu i gynnig gwasanaeth gofalgwr a chyfeillgar i'r cleifion.

Gwelsom aelodau o'r staff yn trin y cleifion yn garedig a phroffesiynol a chawsom sicrwydd gan y trefniadau a oedd ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Nodwyd gennym fod angen i'r practis wella'r wybodaeth a oedd yn cael ei rhoi i'r cleifion, yn enwedig pan oeddent yn yr ardal aros. Byddai'n fuddiol i'r practis ymgysylltu mwy â'r cleifion er mwyn casglu adborth ac awgrymiadau ganddynt i wella'r feddygfa ymhellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Annog y rheini sydd o bosibl am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg i wneud hynny
- Arddangos gweithdrefn Gweithio i Wella'r GIG a sicrhau ei bod yn haws ei gweld
- Ffurfioli gweithdrefn safonol ar gyfer cynnal adolygiadau cymheiriaid o atgyfeiriadau gofal eilaidd ac atgyfeiriadau mewnol
- Datblygu amrywiaeth o daflenni a ffurflenni adborth cleifion mewn fformatau hygyrch a sicrhau eu bod ar gael i'r cleifion (e.e. hawdd eu darllen, braille neu brint bras).

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i helpu
- Roedd mynediad gwastad i bob ardal i gleifion
- Roedd cyfrinachedd y cleifion yn cael ei barchu bob amser
- Roedd trefniadau cadarn ar waith gan y practis ar gyfer trefnu hebryngwyr pe byddai angen gwneud hynny.

Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol ym Meddygfa Llanyrafon. Fodd bynnag, roedd gennym sawl pryder mewn perthynas â'r adeilad a'r amgylchedd a allai beri risg i ddiogelwch y cleifion. Ymdriniwyd â'r pryderon hyn o dan ein proses

sicrwydd ar unwaith. Yn fuan ar ôl ein hymweliad, cawsom sicrwydd gan y practis ei fod bellach wedi datrys y pryderon hyn yn foddhaol.

Roedd y cofnodion a oedd yn cael eu cadw o safon dda a dim ond mân welliannau yr oedd eu hangen o ran defnyddio'r Codau Read cywir.

Roeddem yn fodlon bod trefniadau addas ar waith i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed neu oedolion sy'n wynebu risg.

Roedd angen rhoi system adolygu cymheiriaid ffurfiol ar waith yn ogystal â phroses fwy cadarn ar gyfer rhannu gwybodaeth â thîm cyfan y practis. Rydym hefyd yn argymhell gwelliannau mewn rhai meysydd o ran rheoli meddyginiaethau a phrotocolau rhagnodi.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod risgiau amgylcheddol yn y feddygfa yn cael eu rheoli'n briodol, er enghraifft atal tân, diogelwch nwy a diogelwch trydanol.

At hynny, ni chafodd AGIC sicrwydd fod trefniadau addas ar waith gan y practis ar gyfer gwirio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys, nac i archebu cyffuriau a chyfarpar brys yn lle eitemau yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio.

Ar ddiwrnod ein hymweliad, ni chafodd AGIC sicrwydd ychwaith fod meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell bob amser yn cael eu storio'n briodol yn y practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwrthfotig amgen ar gael i drin llid yr ymennydd bacterol pan fydd gan gleifion alergedd i benisilin a/neu ddatblygu protocol ar gyfer trin cleifion o dan amgylchiadau o'r fath
- Datblygu polisi ffurfiol sy'n rhoi eglurder i'r cleifion o ran pwy all gyflwyno cais am bresgripsiynau rheolaidd i Feddygfa Llanyrafon a rhoi'r polisi hwnnw ar waith
- Rhoi llyfr fformiwlâu y cytunwyd arno ar waith
- Adolygu'r system rhagnodi sydd ar waith yn y practis yn rheolaidd
- Sicrhau bod cofnodion meddygol y cleifion yn cynnwys digon o fanylion ar gyfer dileu meddyginiaeth o'r rhestr presgripsiynau rheolaidd
- Sicrhau bod y ddau bractis wedi llofnodi copïau o'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ôl grwpiau clinigol penodol
- Datblygu system gadarn er mwyn gallu ymateb yn brydlon pan fydd angen help yn y practis, os bydd ei angen
- Cynnal archwiliad atal a rheoli heintiau

- Ffurfioli cyfarfodydd â'r tîm clinigol ehangach sy'n gweithio ochr yn ochr â'r practis (e.e. ymwelwyr iechyd a'r tîm nyrsys ardal)
- Datblygu trefniadau parhaus ar gyfer asesu'r broses o gadw cofnodion gan sicrhau bod y Codau Read cywir yn cael eu rhoi yng nghofnodion y cleifion
- Datblygu trefniadau parhaus ar gyfer asesu'r crynodebau a gaiff eu llunio gan staff anghlinigol
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o leoliad y cyffuriau a'r cyfarpar brys a sut i gael gafael arnynt
- Darparu cofnodion ar gyfer cyfarfodydd clinigol er mwyn annog cyfleoedd i ddysgu a threfniadau gweithio clinigol cydlynol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau o safon dda ac roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo
- Roedd arferion da yn amlwg o ran archwiliad gan y practis ar y defnydd o opioidau ac roedd camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i'r canlyniadau
- Roedd arferion da i'w gweld yn amlwg o ran cyfraniad tîm y practis at ddatblygu'r wefan sepsis ar ran Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Trefniadau priodol ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed neu oedolion sy'n wynebu risg.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Ar adeg ein harolygiad, roedd y feddygfa yn cael ei rheoli gan Feddygfa Pentref Cwmbrân a oedd gerllaw. Roedd rheolwr practis yn gweithio yn y prif bractis a oedd hefyd yn un o bartneriaid y practis, ac roedd dirprwy reolwr ar wahân yn gweithio ym Meddygfa Llanyrafon.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ymrwymiad i ofal cleifion ac roeddent yn awyddus i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cynnal ar y staff ac roedd y ffeiliau a wiriwyd gennym yn cynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae angen cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y tîm cyfan, gyda'r bwrdd iechyd lleol yn caniatáu amser i wneud hynny. Byddai hyn yn galluogi'r practis i uno o dan y strwythur rheoli newydd. Byddai polisiau sy'n berthnasol i'r ddau safle yn ategu hyn ymhellach.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflwyno cyfres o bolisiau a gweithdrefnau i annog trefniadau gweithio cydlynol ar ddau safle'r practis
- Gyda chymorth y bwrdd iechyd lleol, rhoi amserlen o gyfarfodydd ar waith ar gyfer y practis cyfan
- Gyda chymorth y bwrdd iechyd lleol, defnyddio amser dysgu gwarchoddedig i annog unigolion i rannu'r gwersi a ddysgir o fewn timau clinigol
- Ailddechrau cynnal arfarniadau staff blynyddol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr uwch-aelodau o staff a'r rheolwyr yn weladwy ac yn effeithiol
- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau a hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol cyfredol
- Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod gwiriadau DBS rheolaidd yn cael eu cynnal.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae rhai o'r meddygon a staff y dderbynfa yn swta iawn, ac yn anghwrtais mewn gwirionedd.”

“... mae'r gwasanaeth bob amser yn foddhaol”

“Triniaeth eithriadol gan un o'r meddygon”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

“Mwy o apwyntiadau wyneb-yn-wyneb.”

“Gellid ei gwneud hi'n haws gweld meddyg”

“Mae'r system newydd ar gyfer archebu presgripsiynau rheolaidd yn llawer mwy anodd na'r system flaenorol a oedd yn hawdd iawn i gleifion ei defnyddio.”

“Cyflwyno presgripsiynau nôl i Llanyrafon.”

Ar y cyfan, roedd bron pob un o'r farn bod ei brofiad o'r practis yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Cadw'n iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Ar ddiwrnod ein hymweliad, nid oedd llawer o wybodaeth na chynngor hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i'r cleifion. Roedd yr ystafell aros yn arbennig o wag ac nid oedd unrhyw beth ar y waliau. Nid oedd taflenni yn hybu ffordd iach o fyw ar gael yn y practis i'r cleifion eu cadw. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod yr holl bosteri a thaflenni gwybodaeth wedi cael eu symud o'r ardaloedd i gleifion yn ystod y pandemig ac nad oeddent wedi cael eu dychwelyd eto. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth o wybodaeth am wahanol bynciau ar gael ar wefan y practis er mwyn gwella iechyd a llesiant ei gleifion.

Dywedwyd wrthym fod ymarferydd llesiant yn rhan o'r feddygfa. Roedd hyn yn cael ei hysbysebu ar wefan y prif bractis ac roedd y meddygon yn ymwybodol y dylid hyrwyddo'r gwasanaeth hwn ac annog y cleifion hynny y byddai'r gwasanaeth o fudd iddynt i ymgysylltu ag ef.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd bron pob un o'r cleifion a ddychwelodd holiadur wedi'i gwblhau wrthym eu bod yn teimlo bod staff y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Cadarnhawyd hyn gan ein harsylwadau ar ddiwrnod ein hymweliad lle gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gyfeillgar a chroesawgar.

Gwelsom fod sgrin wedi'i gosod wrth ddesg y dderbynfa er mwyn gwahanu ardal y dderbynfa a'r ardal aros. Roedd hyn yn ddefnyddiol wrth sicrhau nad oedd modd i'r rheini sy'n eistedd yn yr ardal aros glywed sgysiau preifat a chyfrinachol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym pe byddai claf yn awyddus i siarad yn breifat ag aelod o'r staff, fod trefniadau ar waith i ddefnyddio ystafell swyddfa sbâr. Nid oedd yr ystafell hon wrth ymyl desg y dderbynfa na'r ardal aros.

Nid oedd yr ystafelloedd ymgynghori na'r ystafelloedd trin wedi'u lleoli wrth ymyl y brif ardal aros. Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau pan oeddent yn cael eu defnyddio. Yn ogystal, roedd llenni yn yr ystafelloedd ymgynghori y gellid eu tynnu er mwyn parchu urddas y cleifion yn ystod archwiliadau drwy gynnig mwy o breifatrwydd iddynt.

Dywedwyd wrthym fod rhai o staff y dderbynfa a rhai o'r gweithwyr cymorth gofal iechyd wedi'u hyfforddi i ddarparu gwasanaeth hebryngwr i gleifion a fyddai'n gofyn am wasanaeth o'r fath a gwelsom fod y gwasanaeth hwn wedi'i hysbysebu yn yr ystafell aros. Dywedwyd wrthym y byddai cydsyniad llafar gan gleifion yr oedd angen archwiliadau personol arnynt yn cael ei gofnodi yn eu cofnodion meddygol ac y byddai enw'r hebryngwr a oedd yn bresennol yn cael ei nodi, pe gofynnwyd am hebryngwr.

Nid oedd unrhyw ddynion a oedd wedi'u hyfforddi fel hebryngwyr ar gael yn y practis. Fodd bynnag, pe byddai angen hynny, dywedwyd wrthym y byddai'r claf yn gallu mynd i Feddygfa gyfagos Pentref Cwmbrân lle y gellid trefnu apwyntiad ag aelod gwrywaidd o'r staff.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y practis wefan llawn gwybodaeth a oedd yn berthnasol i Feddygfa Llanyrafon a phrif Feddygfa Pentref Cwmbrân. Roedd yn cynnwys manylion yr ardal

ddaearyddol a oedd yn cael ei gwasanaethu gan y practis, tîm y staff, amseroedd agor y ddwy feddygfa a'r trefniadau ar gyfer cael gafael ar help a chynghor y tu allan i oriau. Yn ogystal, gallai'r cleifion gael gafael ar wybodaeth am sut i archebu presgripsiynau rheolaidd.

Gwelsom fod cyfeiriadau at wasanaethau fel Dewis Fferyllfa a dolen i Dewis Doeth Cymru hefyd ar y wefan. Roedd dolenni hefyd ar gael ar wefan y practis i grwpiau cymorth ar gyfer caethiwed ac i gael cynghor ar broblemau meddygol penodol.

Fodd bynnag, prin iawn oedd y wybodaeth a oedd ar gael yn Gymraeg ar wefan y practis ac ym Meddygfa Llanyrafon. Cawsom wybod gan uwch-aelodau o'r staff fod posteri yn hybu'r Gymraeg ac yn annog pobl i'w defnyddio wedi cael eu tynnu oddi yno yn ystod y pandemig ac nad oeddent wedi cael eu dychwelyd ers hynny. Fodd bynnag, roedd gan y practis feddyg teulu sy'n siarad Cymraeg a allai helpu pe byddai'n well gan glaf gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er i ni weld bod gwybodaeth ar gael am broses gwyno'r GIG, Gweithio i Wella, ar wefan y practis, ni welsom fod y wybodaeth hon yn cael ei darparu yn ardal aros y feddygfa.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Roedd Meddygfa Llanyrafon ar agor rhwng 8:00am a 5:00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu drwy wasanaeth E-consult y practis a byddai'r cleifion yn cael cyfarwyddyd i ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw drwy neges wedi'i recordio pe byddent yn ceisio ffonio'r feddygfa. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod staff yn ymwybodol o gleifion na fyddent yn gallu defnyddio'r gwasanaeth hwn, ac o dan amgylchiadau o'r fath, byddai modd defnyddio disgresiwn.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnig ymweliadau cartref i gleifion a oedd yn gaeth i'r tŷ neu i'r cleifion hynny a oedd yn rhy sâl i ddod i'r feddygfa. Roedd yr ymweliadau hyn yn cael eu cynnal drwy wasanaeth rota gan feddygon teulu'r practis. Roedd trefniadau ar waith gan y bwrdd iechyd i ddarparu gofal meddygol brys y tu allan i oriau.

O ran y trefniadau ar gyfer rhoi ail farn yn fewnol, cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff eu bod yn cael eu defnyddio ar sail anffurfiol gan fod gan lawer o'r staff clinigol yn y practis ddiddordeb mewn meysydd meddygaeth penodol. Roedd hyn yn cynnwys diabetes, dermatoleg a ffibromyalgia. Byddai modd gofyn i'r aelodau hyn o staff am ail farn cyn atgyfeirio claf at ofal eilaidd lle y bo'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn gallu cael mân lawdriniaethau drwy'r practis gan fod dau feddyg yn arbenigo yn y maes hwn.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod atgyfeiriadau at wasanaethau gofal eilaidd (ysbyty) yn cael eu gwneud drwy Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru (WCCG). Roedd hyn yn galluogi'r practis i archwilio atgyfeiriadau gan sicrhau bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i'r ysbyty priodol. Rheolwr y practis oedd yn ymgymryd â'r broses hon. Cawsom sicrwydd fod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud mewn modd amserol, gydag atgyfeiriadau brys yn cael eu cwblhau o fewn un diwrnod gwaith ac atgyfeiriadau cyffredin mewn llai nag wythnos. Fodd bynnag, cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cyfraddau atgyfeirio gwahanol gan feddygon teulu'r practis a'i bod wedi bod yn anodd safoni'r meini prawf ar gyfer gwneud atgyfeiriadau. Yn ôl pob sôn, roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i straen y pandemig. Cawsom sicrwydd pe byddai angen dulliau cyfathrebu penodol ar gleifion ag anghenion ychwanegol y byddai'r angen hwn yn cael ei gynnwys fel rhan o broses Porth Cyfathrebu Clinigol Cymru.

Dywedwyd wrthym oherwydd diffyg amser dysgu gwarchoddedig gan y bwrdd iechyd, mai anaml y byddai penderfyniadau i atgyfeirio cleifion at ofal eilaidd yn destun adolygiadau cymheiriaid yn y practis. Fodd bynnag, roedd atgyfeiriadau a wnaed yn fewnol at glinigwyr eraill yn cael eu hadolygu'n anffurfiol lle bynnag y bo'n bosibl.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar yr oriau agor a oedd yn cael eu cynnig gan y practis. Pan ofynnwyd iddynt am eu profiad yn trefnu apwyntiad brys, dywedodd dros eu hanner eu bod wedi cael profiad 'da' neu 'dda iawn'. Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr fod eu profiad o drefnu apwyntiad cyffredin yn 'dda'. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiadur a oedd yn ystyried bod ganddynt gyflwr meddygol parhaus o'r farn eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth rheolaidd gan y practis.

Cawsom y sylwadau canlynol gan gleifion mewn perthynas â mynediad amserol i'r practis meddygon teulu:

“Wrth drefnu apwyntiad nad yw'n apwyntiad brys, dyw'r system ar-lein ddim yn gweithio”

“Rwy'n cael problemau wrth ddefnyddio'r cyfleuster e-consult i drefnu apwyntiad ar yr un dydd ar gyfer fy mhlentyn. Mae'n nodi bod yn rhaid iddo fod yn 18 oed...”

“Ar gyfer apwyntiadau brys, gofynnir i chi gyflwyno cais ar-lein; mae nifer o gwestiynau yn cael eu gofyn ac ar dri achlysur, ar ôl i mi gwblhau'r broses, cefais neges yn dweud nad oedd modd ymdrin â'r cais ar-lein a bod angen i fi ffonio'r feddygfa, ond pan fyddaf yn gwneud hynny, mae'r system yn gofyn i

mi gyflwyno cais ar-lein. Nid yw'r system hon yn gweithio'n effeithlon, a phan fydd rhywun o dan bwysau ac yn sâl, mae'n gwneud pethau'n waeth."

"...does neb erioed wedi fy ffonio nôl"

"Dydw i ddim yn hoffi'r drefn apwyntiadau dros y ffôn. Byddai'n well gen i gael fy ngweld ar gyfer salwch y mae angen presgripsiwn ar ei gyfer..."

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd Meddygfa Llanyrafon wedi'i lleoli mewn adeilad pwrpasol. Roedd pob ardal i gleifion wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ac roedd mynediad gwastad i adeilad y feddygfa. Roedd drysau a oedd yn cynnwys system mynediad i bobl anabl gan y feddygfa, drwy bwyso botwm mawr. Ar ddiwrnod ein hymweliad, nid oedd y drysau hyn yn gweithio'n iawn. Roedd lleoedd parcio ar gael ar safle'r feddygfa ac roedd cilfannau parcio penodol i bobl anabl.

Dyweddodd uwch-aelodau o'r staff wrthym eu bod yn gwasanaethu poblogaeth o gleifion cymysg a bod ardaloedd uchel o amddifadedd. Oherwydd y gyllideb a oedd ar gael ac amrywiaeth y boblogaeth o gleifion, dywedwyd wrthym ei bod hi'n anodd darparu archwiliadau iechyd personol rheolaidd i bawb y gallai fod eu hangen arnynt.

Nododd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod o'r farn eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod eu meddyg teulu yn cyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill o ran eu gofal a'u triniaeth.

Hawliau pobl

Gwelsom dystiolaeth fod polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a oedd wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar ar waith yn y feddygfa. Roedd yn ofynnol hefyd i'r staff ymgymryd â hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod hyn yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin yn gyfartal ac yn barchus a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag achosion o wahaniaethu.

Dywedwyd wrthym fod dolen sain ar gael yn y feddygfa er mwyn helpu'r cleifion hynny ag anawsterau clywed a bod llinell iaith y gellid ei defnyddio drwy'r bwrdd iechyd lleol. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt, nid oedd y staff yn siŵr pa wasanaethau roedd y llinell iaith yn eu cynnig.

Nid oedd gwybodaeth i gleifion ar gael yn hwylus gan y feddygfa mewn fformat hawdd ei ddarllen neu mewn braille.

Nododd bron pob un a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd cael mynediad i'r feddygfa. Fodd bynnag, nododd un ei fod wedi cael rhywfaint o anhawster, gan gyflwyno'r sylw canlynol:

“[Mynediad gan ddefnyddio] cadair olwyn. Mae drysau'r fynedfa yn lletchwith pan fyddant ar gau yn ystod misoedd oerach a gwlypach.”

Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd priodol ar yr adeg briodol ni waeth a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchoddedig. Cawsom y sylw canlynol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

“Mor anodd cael apwyntiad.”

Nododd un ymatebydd ei fod wedi cael profiad o wahaniaethu yn ei erbyn wrth ddefnyddio'r feddygfa.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd y feddygfa yn casglu adborth gan gleifion drwy arolwg ar-lein a oedd ar gael ar ei gwefan. Fodd bynnag, nid oedd fersiwn hygyrch i gleifion nad oes ganddynt fynediad digidol ar gael ar hyn o bryd. At hynny, nid oedd gwybodaeth ynghylch rhoi'r awgrymiadau ar gyfer gwella a wnaed gan gleifion wedi'i harddangos.

Cawsom dystiolaeth o bolisi a gweithdrefn gwyno a oedd wedi cael eu hadnewyddu ym mis Medi 2021. Roeddent yn cydymffurfio â gweithdrefn Gweithio i Wella'r GIG ac yn cynnig canllawiau i'r cleifion a'u gofalwyr pe byddent am gwyno. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod aelod penodol o'r staff yn gyfrifol am reoli cwynion ym Meddygfa Llanyrafon a bod pob cwyn yn cael ei chadw ar ffeil. Gwnaethom edrych ar sampl o'r cwynion yr oedd y feddygfa wedi'u cael a nodwyd gennym fod ymateb priodol wedi cael ei roi o fewn yr amserlen benodedig. Roedd gwefan y feddygfa yn cyfeirio cleifion at reolwr y practis pe byddent am gwyno.

Gwnaethom ofyn i uwch-aelodau o'r staff am y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod gwersi yn cael eu rhannu o ganlyniad i themâu neu dueddiadau a nodwyd yn sgil cwynion. Dywedwyd wrthym mai dim ond aelodau staff y grwpiau roedd y cwyn yn ymwneud â nhw fyddai'n rhan o'r broses hon, ac nad oedd dull gweithredu tîm cyfan ar waith. Nodwyd mai'r rheswm am hyn oedd diffyg amser dysgu gwarchoddedig wedi'i gefnogi gan y bwrdd iechyd lleol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y feddygfa wedi'i lleoli mewn adeilad deulawr pwrpasol. Ar y cyfan, roedd yr ardaloedd a oedd yn cael eu defnyddio gan y cleifion a'r staff yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd biniau offer miniog yn cael eu storio'n briodol yn yr ardaloedd clinigol.

Cawsom gopi o'r Cynllun Parhad Busnes. Roedd yn unol â gweithdrefnau'r bwrdd iechyd lleol.

Wrth gael ein tywys o amgylch y feddygfa, nodwyd gennym er bod diffoddwyr tân wedi'u lleoli mewn manau strategol, nad oeddent wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar.

Cawsom dystiolaeth o arolygiad a gwblhawyd yn ddiweddar o'r System Canfod Tân a Larwm Tân ac adroddiad gwasanaethu. Roedd yn tynnu sylw at sawl mater yr oedd angen eu gwella nad oedd y feddygfa wedi gweithredu yn eu cylch eto. At hynny, nid oedd asesiad risg tân addas ar waith gan y feddygfa ar gyfer yr adeilad, ac nid oedd dystiolaeth bod archwiliad yn cael ei gynnal bob pum mlynedd o'r gwifrau na thystysgrif diogelwch nwy. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod hyn oherwydd heriau yr oeddent wedi'u hwynebu gan y bwrdd iechyd a pherchennog yr adeilad o ran cyfrifoldebau cynnal a chadw'r adeilad. Yn ogystal, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ymarferion tân wedi cael eu cynnal yn y feddygfa ers i'r perchenogion newid ym mis Mai 2021.

O ganlyniad i'n canfyddiadau, ni chawsom sicrwydd fod prosesau a gweithdrefnau addas ar waith gan y practis i sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC, lle gwnaethom ysgrifennu at y feddygfa yn gofyn iddi wneud gwelliannau ar unwaith. Ers hynny, rydym wedi cael sicrwydd boddhaol bod gwelliannau wedi'u gwneud.

O'n trafodaethau â'r staff, nid oedd system gadarn ar waith pe byddai angen i aelod o'r staff alw am gymorth brys. Yn ogystal, ni chawsom gopi o brotocol yn nodi lleoliad y cyfarpar brys na sut i gael gafaél arno.

Atal a Rheoli Heintiau

[Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan y cleifion o ran glendid y feddygfa. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y feddygfa yn 'lân iawn'. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur eu bod o'r farn bod

gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â gofynion COVID-19 yn amlwg yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Wrth i ni gael ein tywys o amgylch y feddygfa ac arsylwi arni, nodwyd gennym fod trefniadau atal a rheoli heintiau yn cael eu rheoli'n dda. Roedd yr ardaloedd i'r cleifion yn ymddangos yn lân, ac roedd lloriau caled ym mhob ardal.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi dwylo ar gael i'r cleifion yn y toiled i gleifion a bod offer diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r adeilad. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori yn lân ac yn daclus ac roedd cyfleusterau golchi dwylo priodol ar gael â thapiau y gellid eu gweithredu â phenelin. Roedd cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael hefyd.

Er bod y practis yn cyflogi staff glanhau, dywedwyd wrthym mai'r staff nyrsio oedd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ystafelloedd ymgynghori wedi cael eu glanhau'n briodol a bod cyflenwadau priodol o PPE ynddynt. Roedd gwastraff domestig (cartref) a gwastraff clinigol (gan gynnwys offer miniog) yn cael eu gwahanu'n briodol i fagiau/cynwysyddion gwastraff o wahanol liwiau. Roedd gwastraff clinigol a oedd yn barod i'w gasglu yn cael ei storio'n ddiogel mewn bin gwastraff clinigol wedi'i gloi y tu ôl i'r practis. Fodd bynnag, wrth wirio'r ddogfennaeth ar gyfer casglu gwastraff peryglus, nodwyd gennym fod rhywfaint o'r gwaith papur ar goll. Yn ogystal, ni chawsom dystiolaeth fod archwiliad gwastraff blynyddol yn cael ei gynnal.

Cawsom dystiolaeth o'r polisi a'r archwiliad rheoli heintiau diweddaraf. Ym mis Mawrth 2021 y cawsant eu hadolygu ddiwethaf, a hynny o dan ofal y perchenogion blaenorol. Ac er eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer atal a rheoli heintiau, roedd angen eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y prosesau a nodwyd yn dal yn berthnasol. Roedd gan y practis arweinydd atal a rheoli heintiau, a oedd wedi'i nodi yn y polisi presennol ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod statws imiwneiddio Hepatitis B y staff clinigol yn cael ei wirio fel rhan o'r broses gyflogi, a gwelsom dystiolaeth fod cofnodion unigol yn cael eu cadw yn hyn o beth.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn ddiweddar.

Rheoli meddyginiaethau

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff nad oedd y practis yn defnyddio unrhyw lyfr fformiwlâu penodol, a'i fod yn dilyn gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd lleol. Byddai defnyddio llyfr fformiwlâu y cytunwyd arno yn helpu'r clinigwyr sy'n rhagnodi i ragnodi meddyginiaethau o restr ddewisol, yn ddarostyngedig i ganllawiau lleol a chenedlaethol.

Dyweddod uwch-aelodau o'r staff wrthym nad oedd unrhyw system ffurfiol ar waith i adolygu'r system rhagnodi sydd ar waith yn y practis yn rheolaidd. Yn hytrach, byddai fferylydd y practis yn parhau i ragnodi'r rhan fwyaf o feddyginiaethau. Byddai rhoi system ffurfiol ar waith yn hyrwyddo trefniadau diogel ac effeithiol ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau.

Roedd y weithdrefn ar gyfer ailarchebu meddyginiaethau ar bresgripsiwn wedi newid yn ddiweddar yn y feddygfa ac roedd bellach yn ofynnol i'r cleifion gyflwyno cais am bresgripsiwn rheolaidd i'r brif feddygfa yng Nghwmbrân. Fodd bynnag, byddai'r staff yn defnyddio eu disgrisiwn o ran derbyn ceisiadau am bresgripsiwn rheolaidd ym Meddygfa Llanyrafon. Nid oedd unrhyw weithdrefn ffurfiol ar waith i nodi pwy oedd yn gymwys a phwy nad oeddent yn gymwys i wneud hyn.

Dyweddod uwch-aelodau o'r staff wrthym nad oedd y feddygfa yn bractis a oedd yn darparu meddyginiaethau ac mai dim ond brechlynnau ac imiwneiddiadau oedd yn cael eu cadw ar y safle mewn dwy oergell ddynodedig. Datgelodd tystiolaeth a gawsom yn ystod yr arolygiad nad oedd tymheredd yr oergelloedd a oedd yn cael eu defnyddio i storio brechlynnau ac imiwneiddiadau bob amser yn cael ei gofnodi. Dywedwyd wrthym mai aelod penodol o'r staff nad oedd yn gweithio'n llawn amser ym Meddygfa Llanyrafon oedd yn gyfrifol am hyn.

Er bod modd cloi'r oergell ag allwedd er mwyn ei hatal rhag agor yn ddamweiniol, ni lwyddwyd i ddod o hyd i'r allwedd yn ystod ein harolygiad. Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r gofynion storio ar gyfer sicrhau tymheredd cyson oer, gofynnwyd i'r staff am gopi o'u polisi ar gyfer storio a chludo meddyginiaethau y mae angen sicrhau tymheredd cyson oer ar eu cyfer yn ddiogel. Ni lwyddodd y staff i ddod o hyd i bolisi o'r fath yn ystod ein harolygiad. Felly, ni chawsom sicrwydd fod y feddygfa yn ymwybodol o weithdrefnau addas ar gyfer sicrhau bod meddyginiaethau y mae angen sicrhau tymheredd cyson oer ar eu cyfer yn cael eu storio'n ddiogel na bod gweithdrefnau o'r fath ar waith. Byddem yn argymhell y dylai'r feddygfa ystyried defnyddio cofnodwr data i sicrhau cysondeb tymheredd oergelloedd dros y penwythnos ac ar wyliau banc.

Wrth i ni arsylwi ar y cyffuriau a'r cyfarpar brys a oedd ar gael yn y feddygfa, gwelsom fod y dyddiad defnyddio ar bediau'r diffibriliwr pediatrig wedi mynd heibio. Yn ogystal, cawsom dystiolaeth mai archwiliadau misol oedd yn cael eu cynnal o'r cyfarpar hwn yn hytrach nag archwiliadau wythnosol, nad oedd yn cydymffurfio â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU. At hynny, datgelodd ein trafodaethau â'r staff nad oedd unrhyw gyffur brys amgen ar gael nac unrhyw brotocol ar gyfer y cleifion hynny yr amheuwyd eu bod yn dioddef o lid yr ymennydd bacterol ond y gallai fod ganddynt alergedd hefyd i benisilin. Gallai hyn greu oedi annerbyniol wrth ddarparu triniaeth feddygol briodol ar gyfer y cyflwr hwn.

O ganlyniad i'n canfyddiadau, ni chawsom sicrwydd fod prosesau a gweithdrefnau addas ar waith gan y practis i sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC, lle gwnaethom ysgrifennu at y feddygfa yn gofyn iddi wneud gwelliannau ar unwaith. Ers hynny, rydym wedi cael sicrwydd boddhaol bod gwelliannau wedi'u gwneud.

Gwnaethom edrych ar Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion a oedd ar gael yn y feddygfa. Roeddent yn ymwneud â chyflenwi a rhoi meddyginiaethau penodol. Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi'r ddogfennaeth a oedd ar gael yn y feddygfa er mwyn eu galluogi i roi'r meddyginiaethau yr oedd y cyfarwyddiadau yn cyfeirio atynt. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm am hyn oedd eu bod wedi llofnodi'r ddogfennaeth ym Meddygfa Pentref Cwmbrân. Er mwyn osgoi dryswch, rydym yn argymhell y dylai'r staff lofnodi'r ddogfennaeth angenrheidiol sydd ar gael ar safle'r ddwy feddygfa.

Gwelsom fatrics hyfforddiant y staff a oedd yn dangos bod y staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddadebru cardio-anadlol (CPR).

Cawsom wybod am enghreifftiau o arferion da gan uwch-aelodau o'r staff, gan gynnwys archwiliad diweddar a gynhaliwyd i nodi faint o'r cleifion a oedd yn defnyddio opioidau. Nododd yr archwiliad lefel uchel o ddefnydd ymhlith y garfan a archwiliwyd ac o ganlyniad, aeth y feddygfa ati i annog y cleifion hynny i leihau eu defnydd lle y bo'n bosibl.

Cadarnhaodd y staff y byddent yn rhoi gwybod am adweithiau andwyol i gyffuriau drwy'r cynllun cerdyn melyn. Byddai gwybodaeth am adweithiau andwyol posibl yn cael ei rhoi ar system rheoli cofnodion y feddygfa.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod gan y feddygfa bolisiau ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed neu oedolion sy'n wynebu risg. Fodd bynnag, nid oedd y polisiau hyn wedi cael eu diweddarau ers 2019 ac roedd angen eu hadolygu.

Un o'r meddygon teulu oedd arweinydd diogelu'r feddygfa.

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod pob meddyg teulu yn y practis wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu lefel tri fel rhan o broses arfarnu ac ailddilysu flynyddol y practis.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Dywedwyd wrthym mai rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am wirio'r dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn y feddygfa.

Er nad oedd contract ar waith ar gyfer cynnal cyfarpar a dyfeisiau meddygol, roedd y cyfarpar yn y feddygfa mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod profion offer cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal yn ddiweddar o'r cyfarpar trydanol.

Cawsom sicrwydd fod eitemau untro ac offer miniog yn cael eu storio, eu trin a'u gwaredu'n briodol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff y prosesau a oedd ar waith ar gyfer rhannu a dosbarthu rhybuddion diogelwch cleifion a gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau o bwys. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn rhybuddion diogelwch cleifion a'u dosbarthu i'r staff. Er bod rhybuddion diogelwch yr ystyriwyd eu bod yn risg uchel yn cael eu rhannu ar unwaith drwy ffurflen electronig safonol, byddai'r rheini yr ystyriwyd gan y feddygfa eu bod yn risg is yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, nid oedd cyfarfodydd tîm cyfan wedi cael eu cynnal ers peth amser ac felly nid oedd bob amser gyfle i rannu gwersi a ddysgwyd na thrafod materion. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm am hyn oedd diffyg amser dysgu gwarchoddedig wedi'i hwyluso gan y bwrdd iechyd lleol. At hynny, gwelsom nad oedd cofnodion bob amser yn cael eu cymryd o gyfarfodydd clinigol, gan effeithio ymhellach ar y gallu i rannu'r gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau o bwys.

Dyweddodd uwch-aelodau o'r staff wrthym mai'r staff clinigol oedd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r arferion gorau diweddaraf, y canllawiau cenedlaethol a phroffesiynol diweddaraf a'r wybodaeth ddiweddaraf am bynciau sy'n berthnasol i'w maes gwaith. Cawsom wybod fod trefniadau addas ar waith gan y feddygfa ar gyfer dosbarthu gwybodaeth berthnasol. Byddai'n digwydd drwy e-bost neu ap negeseua ar ffonau symudol fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd gan y practis ddull ffurfiol i'r tîm clinigol drafod canllawiau clinigol newydd, gan gynnwys canllawiau gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), er mwyn datblygu strategaeth i'w rhoi ar waith.

At hynny, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal gyda'r tîm clinigol ehangach y tu allan i'r feddygfa er mwyn helpu i gynllunio gofal ar gyfer y cleifion (er enghraifft, ymwelwyr iechyd a thimau nyrsys ardal). Byddai cyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal ar sail ad hoc.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cymorth iechyd meddwl ar gael drwy ymarferydd llesiant. Roedd modd atgyfeirio cleifion at y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC) hefyd.

Roedd ymweliadau cartref gan feddyg teulu ar gael i'r cleifion yr oedd eu hangen arnynt, ond nifer bach iawn a oedd yn cael eu trefnu bob dydd. Roedd y cyfrifoldeb dros ymweliadau cartref yn cael ei rannu rhwng meddygon teulu'r feddygfa ac roedd "bag parod" yn cynnwys cyfarpar hanfodol yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i wneud diagnosis priodol a thrin cleifion a oedd yn cael ymweliad cartref.

Dyweddodd uwch-aelodau o'r staff wrthym am y weithdrefn a oedd yn cael ei defnyddio pe byddai claf yn dangos symptomau sepsis. Dywedwyd wrthym fod y staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant i reoli sepsis yn briodol. Byddai'r staff yn sgrinio'r cleifion hynny yr oedd ganddynt symptomau yn ôl y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ac yn eu trin yn briodol. Gwelodd y tîm arolygu arferion da amlwg fod y feddygfa wedi cyfrannu at y broses o ddylunio'r wefan sepsis i feddygon teulu ar ran AaGIC. Roedd y cleifion yn cael eu hatgoffa am arwyddion a symptomau sepsis ar wefan y feddygfa.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o'r staff a gadarnhaodd y trefniadau diogelu data yn y feddygfa. Dywedwyd wrthym fod gan y feddygfa swyddog diogelu data a oedd wedi cael hyfforddiant priodol. Roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan lechyd a Gofal Digidol Cymru.

Roedd gan y feddygfa broses glir ar waith ar gyfer ymdrin â data personol a sensitif. Roedd gwybodaeth am hyn ar gael i'r cleifion ei gweld ar wefan y feddygfa drwy hysbysiad preifatrwydd. Roedd gwefan y feddygfa yn rhoi gwybodaeth i'r cleifion am y broses y byddai angen iddynt ei dilyn pe byddent am weld eu cofnodion meddygol.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol electronig y cleifion. Roedd camau diogelu wedi'u cymryd i atal mynediad anawdurdodedig ac roeddent yn hawdd eu defnyddio. Roedd yr holl gofnodion a welsom yn cynnwys digon o wybodaeth am y gofal neu'r driniaeth a roddwyd yn ogystal â'r canfyddiadau clinigol. O ran y cofnodion a welsom, nodwyd gennym fod y cofnodion clinigol o ansawdd digonol a'u bod fel arfer yn cynnwys digon o wybodaeth i lywio asesiadau clinigol.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r cofnodion clinigol wedi cael eu codio'n anghywir, gyda rhai yn cynnwys Codau Read anghywir neu lle roedd y codau ar goll yn llwyr. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym nad oedd unrhyw asesiadau ffurfiol yn cael eu cynnal yn y feddygfa o'r cofnodion a oedd yn cael eu cadw. O ystyried ein canfyddiadau, byddem yn argymhell y dylid cyflwyno archwiliad rheolaidd er mwyn sicrhau safonau codio boddhaol. Byddai hyn, yn ei dro, yn ei gwneud hi'n haws i'r clinigwyr ddilyn taith y claf.

Yn ôl ein trafodaethau â'r uwch-aelodau o staff a'n hadolygiad o'r crynodebau rhyddhau cleifion yn y cofnodion meddygol, roedd y crynodebau hynny yn gynhwysfawr ac roedd newidiadau i feddyginiaeth yn cael eu dogfennu'n dda. Gwelsom fod templed safonol yn cael ei ddefnyddio a oedd wedi annog gwelliant cyffredinol o ran ansawdd y crynodebau hyn.

Aelodau gweinyddol anghlinigol o'r staff oedd yn gyfrifol am lunio crynodebau o'r cofnodion. Er bod y staff yn cael hyfforddiant i ymgymryd â'r dasg hon yn gywir, roeddent yn cael eu goruchwylio gan aelodau eraill o'r staff nad oedd ganddynt brofiad digonol o lunio crynodebau. At hynny, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw archwiliad rheolaidd yn cael ei gynnal o ansawdd y crynodebau. Felly, byddem yn argymhell y dylid cynnal archwiliad rheolaidd o sampl o'r crynodebau anghlinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Ar adeg ein harolygiad, Meddygfa Pentref Cwmbrân a oedd gerllaw oedd yn berchen ar Feddygfa Llanyrafon, ac roedd yn cael ei rhedeg fel meddygfa gangen o'r brif feddygfa honno. Roedd Meddygfa Llanyrafon wedi dod yn rhan o Feddygfa Pentref Cwmbrân ym mis Mai 2021.

Roedd y feddygfa yn rhan o grŵp clwstwr o feddygon teulu lleol. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym eu bod yn mynychu cyfarfodydd y grŵp clwstwr yn rheolaidd. Roedd yr uwch-aelodau o staff o'r farn bod y clwstwr yn cydweithio'n dda.

Roedd tua 50 o aelodau o staff yn gweithio ar ddau safle'r feddygfa. Yn eu plith, roedd cymysgedd o staff clinigol ac anghlinigol, gyda naw ohonynt yn feddygon teulu partner. Roedd y feddygfa yn bractis hyfforddi ac ar adeg ein hymweliad, roedd tri chofrestrydd yn gweithio yn y feddygfa. Roedd tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ategu hyn, gan gynnwys pedair nyrs bractis, ffisegydd cyswllt a nifer o weithwyr cymorth gofal iechyd.

Gwelsom fod systemau ffurfiol ac effeithiol ar waith i arwain a rheoli'r staff. Roedd gan Feddygfa Pentref Cwmbrân reolwr practis a oedd hefyd yn bartner. Roedd gan Feddygfa Llanyrafon ddirprwy reolwr a oedd yn gyfrifol am redeg y feddygfa o ddydd i ddydd.

O siarad ag uwch-aelodau o'r staff, roedd yn amlwg bod caffael Meddygfa Llanyrafon wedi achosi heriau i'r tîm. Nodwyd gennym fod y ddwy feddygfa fel petaent yn gweithredu ar wahân i'w gilydd, gyda'r staff yn aml yn cyfeirio at wahanol weithdrefnau ar wahanol safleoedd. Roedd hyn hefyd yn amlwg o'r gwahaniaethau yn y polisiau a oedd ar gael yn y ddwy feddygfa, gyda Meddygfa Llanyrafon yn dal i ddefnyddio llawer o'r polisiau hynny a ddatblygwyd gan y tîm rheoli blaenorol.

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff eu bod wedi ei chael hi'n anodd recriwtio staff i lenwi swyddi gwag yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er gwaethaf hyn, gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau meddygol cyffredinol i'r cleifion.

Datgelodd trafodaethau ag uwch-aelodau o'r staff, er bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal o fewn timau clinigol i drafod meysydd o ddiddordeb, fod angen mwy o gymorth gan y bwrdd iechyd lleol er mwyn darparu amser dysgu cyffredin ffurfiol. Yn yr un modd, er bod adolygiadau cymheiriaid yn cael eu cynnal ar sail ad hoc, byddai o fudd i'r clinigwyr pe gellid rhoi proses fwy ffurfiol a strwythuredig ar waith yn hyn o beth.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith ym Meddygfa Llanyrafon. Roeddent ar gael mewn system storio ffeiliau dogfennau ar-lein. Fodd bynnag, nid oedd llawer o'r polisiau a oedd ar gael ar safle Meddygfa Llanyrafon wedi cael eu diweddarau na'u hadnewyddu ers i'r feddygfa gael ei chaffael ac roeddent yn cyfeirio at aelodau o staff nad oeddent yn gweithio yn y feddygfa mwyach. O ganlyniad, nid oedd y polisiau yn gyson ar draws y ddau safle a oedd yn rhan o'r practis.

Y Gweithlu

Gwnaethom siarad â sampl o staff o bob proffesiwn sy'n gweithio yn y feddygfa. Roedd y staff yn wybodus am eu rolau ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Cawsom dystiolaeth o fatrics hyfforddiant gan reolwr y practis. Roedd yn dangos, ar y cyfan, bod y rhan fwyaf o'r grwpiau staff yn cydymffurfio'n dda â hyfforddiant gorfodol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymddangos yn awyddus i gyfrannu at sicrhau bod y feddygfa yn rhedeg yn effeithiol.

Cawsom gopi o gynllun datblygu diweddaraf y practis. Roedd hyn yn dangos yr anawsterau yr oedd yr uwch-aelodau o staff wedi'u hwynebu wrth sicrhau bod arfarniad blynyddol yn cael ei gynnal ar gyfer pob aelod o'r staff. Fodd bynnag, gwelsom fod cynllun ar waith i reoli disgwyliadau'r staff o'r broses arfarnu yn well yn y dyfodol, drwy ddefnyddio dirprwy reolwyr yn well.

[Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff. Roedd pob un ohonynt yn gynhwysfawr. Roedd gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth a disgrifiad swydd. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau cyn cyflogi priodol a oedd wedi cael eu cynnal. Gwelsom hefyd fod y staff wedi cael gwiriadau DBS yn ddiweddar.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Llanyrafon, Cwmbrân

Dyddiad yr arolygiad: 4 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<u>Canfyddiad</u> Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y risgiau amgylcheddol yn y practis meddygon teulu ar safle Llanyrafon yn cael eu rheoli'n briodol. Nodwyd y materion canlynol gennym y mae angen i'r lleoliad weithredu yn eu cylch ar unwaith er mwyn atal niwed i'r cleifion a'r staff: <ul style="list-style-type: none">• Nid yw'r trefniadau ar gyfer atal tân yn y practis yn diogelu'r cleifion a'r staff. Nid oedd y practis wedi cynnal asesiad risg tân ar gyfer y safle.• Nid oedd y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad ar y system canfod tân a'r larwm tân, a oedd yn nodi nad oedd y safle yn cydymffurfio â'r safonau canfod tân sy'n berthnasol i safle annomestig, wedi cael eu rhoi ar waith ar adeg ein hymweliad.• Nid oedd y diffoddwyr tân a oedd ar gael yn y practis wedi cael eu gwasanaethu na'u hailddilysu ac roedd y dyddiadau ar gyfer gwneud hynny wedi mynd heibio• Ni chafodd AGIC dystiolaeth bod ymarferion tân yn cael eu cynnal ar safle Llanyrafon				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Nid oedd y lleoliad wedi cynnal gwiriad diogelwch nwy blynyddol dilys Ni lwyddodd y lleoliad i roi cadarnhad i AGIC fod archwiliad dilys yn cael ei gynnal bob pum mlynedd o'r gwifrau. 				
<p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Caiff asesiad risg tân ei gynnal. Dylai'r gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac yn yr adroddiad ar y system canfod tân a'r larwm tân eu rhoi ar waith yn brydlon ac o fewn y terfynau amser a nodwyd. Caiff y diffoddwyr tân eu gwasanaethu a'u hailddilysu'n unol â'r dyddiadau a nodwyd gan y cwmni gwasanaethu Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi Caiff gwiriad diogelwch nwy ei gynnal ar bob dyfais nwy ar safle Llanyrafon 	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu lechyd a Diogelwch</p>	<p>Cynhaliwyd asesiad risg llawn o'r practis yn 2019 nad oedd ar gael ar adeg ymweliad AGIC. Mae'r practis bellach wedi adeiladu ar hyn er mwyn gweld ble y gellir gwneud argymhellion, ac er mwyn gallu nodi unrhyw risgiau eraill pellach. Rydym wedi defnyddio templed blaenorol gan Wasanaeth Tân De Cymru fel canllaw i adeiladu arno, ynghyd â'n rhestr wirio wythnosol</p> <p>Cafodd y diffoddwyr tân eu gwasanaethu a'u hailddilysu ar 11.10.2022</p> <p>Rydym wedi diweddarau'r polisi a chyflwynwyd cynllun ar gyfer y</p>	<p>Sian Whitcombe</p> <p>Hannah Massey</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>Ar unwaith</p> <p>1 wythnos</p> <p>2 wythnos</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Caiff gwiriad ei gynnal bob pum mlynedd o'r weirio ar safle Llanyrafon. 		<p>feddygfa sy'n cynnwys llwybrau dianc, allanfeydd tân, rhybuddion tân a lleoliadau'r diffoddwyr tân. Cynhelir ymarfer tân llawn maes o law.</p> <p>Gan fod yr eiddo yn cael ei rentu, rydym wedi codi'r mater hwn yn syth â'r Landlord a'i gynrychiolydd nwy a thrydan. Gweithredwyd ar y mater a disgwyli'r ymweliad maes o law. Yn y cyfamser, mae'r practis wedi trefnu ymweliad ar gyfer 21.10.2022 os na fydd y Landlord wedi trefnu ymweliad cyn hynny.</p>	<p>Sian Whitcombe</p>	
<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod trefniadau addas ar waith gan y practis ar gyfer gwirio'r meddyginiaethau a'r cyfarpar brys, nac i archebu meddyginiaethau a chyfarpar brys yn lle eitemau yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio.</p> <p>Nodwyd y materion difrifol canlynol gennym ar safle Llanyrafon y mae angen i'r lleoliad weithredu yn eu cylch ar unwaith er mwyn atal niwed i'r cleifion:</p>				

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Nid oedd y trefniadau ar gyfer gwirio'r meddyginiaethau a'r cyfarpar brys yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU ac yn hytrach, roeddent yn cael eu gwirio bob mis. Nodwyd gennym fod y dyddiad defnyddio ar badiu'r diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) ar gyfer cleifion pediatrig wedi mynd heibio ac nad oedd padiau newydd wedi cael eu harchebu. <p>Pan holwyd y staff, nid oeddent yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe byddai claf ag alergedd i benisilin yn dod i'r feddygfa â llid yr ymennydd bacterol gan nad oedd meddyginiaeth amgen ar gael yn y pecyn meddyginiaethau brys.</p>				
<p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y meddyginiaethau a'r cyfarpar brys yn cael eu gwirio o leiaf unwaith bob wythnos yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU Archebu padiau newydd i'r diffibriliwr allanol awtomataidd i gleifion pediatrig yn lle'r padiau y mae'r dyddiad defnyddio wedi mynd heibio arnynt Rhoi gweithdrefn ar waith i'w dilyn os bydd claf ag alergedd i benisilin yn dod 	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Diweddarwyd y Protocol Monitro Cyffuriau i gynnwys gwiriadau wythnosol yn hytrach na gwiriadau misol</p> <p>Cwblhawyd y cam hwn, a diweddarwyd y daenlen cyfarpar brys yn unol â hynny.</p> <p>Diweddarwyd y Protocol Monitro Cyffuriau i gynnwys ymateb 999.</p>	<p>Hannah Massey</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
i'r feddygfa â llid yr ymennydd bacterol. Dylid sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn er mwyn atal achosion o oedi wrth roi triniaeth.				

Canfyddiad

Ni chafodd AGIC sicrwydd ychwaith fod meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell bob amser yn cael eu storio'n briodol ar safle Llanyrafon.

Nodwyd y materion difrifol canlynol gennym ar safle Llanyrafon y mae angen i'r lleoliad weithredu yn eu cylch ar unwaith er mwyn atal niwed i'r cleifion:

- Nid oedd gwiriadau rheolaidd o dymheredd oergelloedd yn cael eu cwblhau a/neu eu cofnodi. Nodwyd gennym o fewn y cyfnod o ddeufis cyn yr arolygiad, nad oedd gwiriadau wedi cael eu cofnodi o dymheredd yr oergell ar gyfer yr oergell a oedd yn cynnwys brechlynnau ac eitemau eraill yr oedd angen sicrhau eu bod yn cael eu storio ar dymheredd cyson oer ar gyfanswm o 11 o ddiwrnodau
- Ni welsom bolisi na gweithdrefn ar gyfer meddyginiaethau yr oedd angen eu storio ar dymheredd cyson oer. At hynny, nid oedd y staff yn siŵr o'r weithdrefn i'w dilyn pe nodwyd problem ag eitemau yr oedd angen eu storio ar dymheredd cyson oer.
- Ni lwyddodd y staff i ddod o hyd i'r allwedd ar gyfer yr oergell a oedd yn storio'r meddyginiaethau a'r brechlynnau hynny yr oedd angen eu cadw mewn oergell.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><u>Yr hyn sydd angen ei wella</u></p> <p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n gyson bob dydd o dymheredd yr oergelloedd, hyd yn oed os bydd aelodau o'r staff yn absennol Dylid rhoi polisi a gweithdrefn ar gyfer eitemau y mae angen eu storio ar dymheredd cyson oer yn y practis, gan gynnwys beth i'w wneud os bydd problem, a dylid sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn o dan amgylchiadau o'r fath Dylid dod o hyd i allwedd yr oergell. Dylid sicrhau bod y staff yn ymwybodol ble y caiff yr allwedd ei chadw pan nad yw'n cael ei defnyddio. 	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaet hau</p>	<p>Diweddarwyd y Protocol. Cafodd y staff eu hysbysu am y weithdrefn a lluniwyd rota yn nodi'r person cyfrifol bob dydd sydd hefyd yn nodi staff wrth gefn os bydd y person cyfrifol yn absennol.</p> <p>Polisi Eitemau y mae angen eu Storio ar Dymheredd Cyson Oer</p> <p>Rydym wedi newid yr oergelloedd yn ddiweddar fel rhan o drefniadau rheoli stoc. Ni fyddwn yn defnyddio'r oergell hyd nes y byddwn wedi dod o hyd i'r allwedd. Mae gwaith monitro yn cael ei</p>	<p>Hannah Massey</p> <p>Sian Whitcombe</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>1 mis</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gynnal o hyd er mwyn sicrhau bod yr oergell yn parhau'n sefydlog.		

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

**Enw
(priflythrennau):**

S Whitcombe

Rôl:

Rheolwr y Practis

Dyddiad:

13.10.2022

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Llanyrafon / Meddygfa Pentref Cwibrân

Dyddiad yr arolygiad: 4 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd i'r cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad digidol o bosibl Bod gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac aros yn iach ar gael ac yn cael ei harddangos yn y practis Bod y taflenni a ddarperir ar gael mewn amrywiaeth o fformatau i'r rheini y gall 	4.2 Gwybodaeth i gleifion	<p>Mae'r hysbysfwrdd i gleifion bellach wedi'i diweddarau ac ychwanegwyd amrywiaeth o wybodaeth hyrwyddo. Rydym hefyd wedi diweddarau'r Arddangosfa Gwybodaeth Electronig yn ystafell aros y practis.</p> <p>Mae gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a gwybodaeth arall am ffyrdd iach o fyw ar gael ar ein hysbysfwrdd a'n harddangosfa yn yr ystafell aros.</p>	<p>Hannah Massey</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>1.2.2023</p> <p>Tystiolaeth: Llun o'r Hysbysfwrdd</p> <p>1.2.2023</p> <p>Tystiolaeth: Llun o'r Hysbysfwrdd</p>

<p>fod angen fformatau amgen arnynt (e.e. hawdd eu darllen, print bras)</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod cleifion sy'n awyddus i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hannog i wneud hynny. 		<p>Mae'r taflenni a ddarperir ar gael mewn sawl fformat lle bo modd, ac mae'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid allanol eraill yn dylanwadu ar hyn. Yn anffodus, nid oes modd argraffu rhai ohonynt yn y fformat hwn ac rydym wedi ein cyfyngu, ond lle byddant ar gael, ceir amrywiaeth ohonynt.</p> <p>Nid oes llawer o siaradwyr Cymraeg ymhlith demograffeg y ddau bractis. Mae'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg ond dim ond un aelod o'n tîm ar y ddau safle sy'n siarad Cymraeg. Ni fyddem yn gallu gwarantu bod siaradwr Cymraeg ar gael, ond rydym yn croesawu unrhyw geisiadau lle bo hynny'n bosibl. Mae llinell iaith ar gael hefyd ac rydym wedi cofrestru ar ei chyfer ac yn ei defnyddio'n rheolaidd.</p>	<p>Hannah Massey</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>1.2.2023</p> <p>Tystiolaeth: Llun o'r Hysbysfwrdd</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
--	--	--	---	---

<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwybodaeth am weithdrefn "Gweithio i Wella" y GIG wedi'i harddangos yn y practis a'i bod ar gael yn hawdd i gleifion nad oes ganddynt fynediad digidol Casglu adborth gan gleifion Creu arddangosfa "dywedoeh chi, gwnaethom ni" ar gyfer awgrymiadau 	<p>6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth</p>	<p>Mae'r wybodaeth hon wedi'i harddangos yn yr ystafell aros ac yn ardal y dderbynfa ac roedd ar gael ar adeg yr ymweliad. Rydym wedi sicrhau bod y wybodaeth hon yn fwy amlwg ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros.</p> <p>Cynhaliwyd Arolwg Boddhad Cleifion gennym yn ddiweddar fel rhan o'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, ac roedd yr arolwg hwnnw yn mynd rhagddo ar adeg yr ymweliad.</p> <p>Mae holiadur pellach hefyd yn cael ei gwblhau fel rhan o'n gwaith gyda Thîm Rhwydwaith Croesyceiliog a Llanyrafon sy'n ymwneud â'r gwasanaethau sydd ar gael.</p> <p>Byddwn yn cyflwyno blwch awgrymiadau i'r cleifion ei</p>	<p>Hannah Massey</p> <p>Sian Whitcombe</p> <p>Sian Whitcombe</p>	<p>1.2.2023</p> <p>Tystiolaeth: Llun o'r Arddangosfa</p> <p>31.3.2023</p> <p>Tystiolaeth: Copi o'r adroddiad myfyrio pan fydd wedi'i gwblhau</p> <p>Tystiolaeth: Copi o'r holiadur sy'n cael ei ddosbarthu</p> <p>31.3.2023</p>
---	--------------------------------------	---	--	--

<p>gan gleifion am welliannau parhaus.</p>		<p>ddefnyddio. Caiff cynllun gweithredu llawn ei lunio yn sgil canlyniadau'r Arolwg Boddhad Cleifion a gaiff ei rannu â'r Bwrdd lechyd, y clystyrau a'r cleifion drwy hysbysfwrdd, gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y practis.</p>		<p>Tystiolaeth: Copi o'r adroddiad myfyrio pan fydd wedi'i gwblhau</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ffurfioli proses safonol ar gyfer cleifion y mae angen atgyfeiriadau mewnol arnynt 	<p>5.1 Mynediad amserol</p>	<p>Mae siart llif o'r holl wasanaethau sydd ar gael yn y practis, gan gynnwys Mân Lawdriniaethau, profion Doppler, Sbirometreg ac ati. Mae staff y dderbynfa a'r meddygon yn ei defnyddio i benderfynu pwy a pha broses sydd eu hangen. Roedd y siart ar gael ac yn cael ei defnyddio ar adeg yr ymweliad, ond nodwyd bod angen hyfforddi'r staff yn well.</p> <p>Caiff hyn ei drafod yng nghyfarfod y partneriaid er mwyn</p>	<p>Sian Whitcombe</p> <p>Chris Price</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tystiolaeth: Copi o'r Canllaw Trefnu Apwyntiadau i Nyrsys a Meddygon</p> <p>31.3.2023</p>

<ul style="list-style-type: none"> Ffurfioli gweithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau cymheiriaid o atgyfeiriadau gofal eilaidd. 		<p>penderfynu ar y broses orau er mwyn cyflwyno'r drefn fel ymarfer safonol. Byddwn hefyd yn cytuno ar amserlen, gan ein bod wedi cynnal y broses hon bob blwyddyn yn y gorffennol. Gellir adolygu hyn y tu allan i'r practis drwy drefniadau arfarnu hefyd.</p>		<p>Tystiolaeth: Copi o gofnodion cyfarfod y partneriaid lle y trafodwyd y mater a chanlyniadau'r camau a gymerwyd</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gall cleifion ag anawsterau symudedd gyrraedd y feddygfa 	<p>6.1 Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> Caiff y drws ei drwsio gan y landlordiaid rhentu. Gwnaed cais a chafodd y cais ei gydnabod. Gwasanaeth presgripsiynau dros y ffôn i gleifion sy'n gaeth i'r tŷ. Mae Dolen Sain yn y dderbynfa 	<p>Michelle Richards</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>31.3.2023</p> <p>Tystiolaeth: Cadarnhad o'r gwaith unwaith y bydd wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tystiolaeth: Gwybodaeth ar ein gwefan a llythyrau hefyd yn rhoi gwybod i'r cleifion am y gwasanaeth hwn</p>

<ul style="list-style-type: none"> Bod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i ddefnyddio gwasanaeth y llinell iaith. 		<ul style="list-style-type: none"> Mae Gwasanaeth Iaith Arwyddion ar gael Mae Gwasanaeth E-bost neu Negeseuon Testun hefyd ar gael. <p>Mae poster Llinell Iaith a manylion amdani ar gael yn y dderbynfa ac ym mhob ystafell ymgynghori</p>	Hannah Massey	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tystiolaeth: Lhun ohono wedi'i arddangos</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi llyfr fformiwlâu y cytunwyd arno ar waith 	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<ul style="list-style-type: none"> Bydd angen canllawiau pellach drwy ein Tîm System Glinigol a Fferylllydd y Practis ynghyd â'r meddygon teulu. Byddwn yn anelu at adolygu hyn. Mae gan Nyrs y Practis hefyd ei Llyfr Fformiwlâu 	<p>Sian Whitcombe</p> <p>Sian Holliday</p>	<p>Parhaus</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

<ul style="list-style-type: none"> Adolygu systemau rhagnodi'r practis yn rheolaidd 		<p>ei hun ar gyfer Rheoli Rhwymynnau a Chlwyfau.</p> <p>Mae Fferyllydd y Practis yn cynnal nifer o adolygiadau polisi. Rydym wedi dechrau ar gyfer rhagnodi ar gyfer cyflyrau UTI a chyflwynwyd y gwaith hwn i Dîm Rhagnodi'r Bwrdd lechyd. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd rhagnodi bob chwarter â'r tîm sy'n pennu camau gweithredu i'w rhoi ar waith. Mae Tîm Rheoli Meddyginiaethau BIPAB bellach wedi ailddechrau gweithio yn y meddygfeydd, felly caiff systemau a pholisïau rhagnodi eu hadolygu'n rheolaidd.</p>	<p>Claire Monaghan</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>Parhaus</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff ar ddau safle'r practis wedi llofnodi'r cyfarwyddiadau ar gyfer grwpiau cleifion 		<p>Mae Nyrs wedi ei henwebu yn y ddau safle bellach, sy'n cynnal y system hon fel rhan o rôl y nyrs arwain yn y practis, y tynnwyd sylw ati.</p>		

<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gwrthfiotig amgen addas ar gael i gleifion y mae angen eu trin ar gyfer llid yr ymennydd bacterol a/neu fod protocol ar waith ar gyfer eu trin yn brydlon o dan amgylchiadau o'r fath os na fydd y feddyginiaeth hon ar gael yn y practis. 		<p>Gofynnwyd am farn feddygol ar ddewis amgen, sef Cefotaxime, ac mae'r feddyginiaeth honno bellach wedi'i hychwanegu at ein Rhestr a'n Protocol Cyffuriau Brys.</p>	Hannah Massey	Wedi'i gwblhau
<p>Mae'n ofynnol i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi manylion am y camau gweithredu a gymerwyd i gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol Sicrhau bod dogfennaeth ar gael ar gyfer y trefniadau casglu gwastraff clinigol 	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	<p>Mae Archwiliad Rheoli Heintiau wrthi'n cael ei gynnal. Nodwyd camau gweithredu bach a chaiff y camau hynny eu rhoi ar waith.</p> <p>Roedd dogfennaeth Gwastraff Clinigol ar gael yn y practis ar adeg yr ymweliad, ond yn anffodus nid oedd y nyrs a oedd yn bresennol yn gwybod ble i ddod o hyd i'r ddogfennaeth hon.</p>	<p>Judith Turner</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tystiolaeth: Copi o'r Archwiliad Rheoli Heintiau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

<ul style="list-style-type: none"> Cynnal archwiliad gwastraff blynyddol 		<p>Ymdriniwyd â hyn bellach ac mae'r practis wedi egluro wrth y nyrs arwain. Diweddarwyd y protocol hefyd.</p> <p>Mae hyn wedi'i gwblhau</p>	<p>Judith Turner/Sian Whitcombe</p>	<p>Tystiolaeth: Copi o'r trefniadau Casglu Gwastraff Clinigol</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Tystiolaeth: Copi o'r Archwiliad Blynyddol</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i ddatblygu asesiad parhaus ar gyfer y trefniadau cadw cofnodion er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Caiff cofnodion meddygol y cleifion eu codio'n briodol 	<p>3.5 Cadw Cofnodion</p>	<ul style="list-style-type: none"> Caiff hyfforddiant Codau Read ei ddarparu os na fydd eisoes wedi'i gwblhau Caiff trefniadau Adolygu Cymheiriaid eu cyflwyno Caiff archwiliadau eu cychwyn a chaiff meddyg teulu arweiniol ei nodi. <p>Mae Protocol Cadw Trefn Rhagnodi yn cael ei lunio er mwyn rhoi canllaw safonol i'n</p>	<p>Sian Whitcombe/Meddyg Teulu Arweiniol</p>	<p>31.3.2023</p>

<ul style="list-style-type: none"> • Bod cofnodion meddygol y cleifion yn cynnwys digon o fanylion ar gyfer dileu meddyginiaeth o'r rhestr presgripsiynau rheolaidd • Bod crynodebau a gaiff eu llunio gan staff anghlinigol yn cael eu hasesu'n barhaus. 		<p>rhagnodwyr wrth ymgymryd â'r gwaith hwn. Bydd yn rhan o'r Protocol Rhagnodi llawn</p> <p>Diweddarwyd y Protocol Cryno a bydd meddyg teulu dynodedig yn cynnal hapwiriadau o'r cofnodion cryno bob mis. Caiff hyn ei gofnodi ar y daenlen crynodebau at ddibenion archwilio</p>	<p>Dr P Agarwal</p> <p>Dr R Ratcliffe</p>	<p>31.3.2023</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i ddatblygu system gadarn ar gyfer sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod help ar gael yn brydlon pan ofynnir amdano • Bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o leoliad y cyffuriau a'r cyfarpar brys 	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Hyrwyddo'r defnydd o'r dudalen fyw fel rhan o'n systemau ffôn. Mae hyn hefyd yn rhan o'n proses sefydlu i gyflogeion newydd.</p> <p>Caiff arwyddion eu dangos ar ddrws yr ardal lle caiff y pecyn brys ei gadw a bydd arwyddion ym mhob ystafell ymgynghori/ystafell driniaeth</p>	<p>Hannah Massey</p> <p>Hannah Massey</p>	<p>1.2.2023</p> <p>1.2.2023</p>

<p>a'r gofynion ar gyfer cael gafael arnynt.</p>		<p>hefyd. Mae'n rhan o'r Pecyn Sefydlu Staff hefyd.</p>		<p>Tystiolaeth: Llundain o'r arwyddion wedi'u harddangos</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i gyflwyno cyfres unffurf o bolisiau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r ddau bractis.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Bydd hyn ar ffurf gwaith parhaus i fonitro polisiau'r practis, a gaiff eu diweddarau'n briodol pan gânt eu hadolygu. Mae nifer o feysydd o hyd lle na ellir defnyddio'r un polisiau. Caiff y meysydd hyn eu monitro hefyd</p> <p>Bydd Tîm Rheoli'r Practis yn defnyddio'r cyfleuster rheoli polisiau sy'n rhan o Practice Index er mwyn gallu ymgymryd â'r gwaith hwn.</p>	<p>Sian Whitcombe Hannah Massey</p>	<p>Parhaus</p> <p>Tystiolaeth: Meddalwedd rheoli polisiau</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r practis roi manylion am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ffurfioli cyfarfodydd â'r tîm clinigol ehangach sy'n gweithio ochr yn ochr â'r 	<p>7.1 Y Gweithlu</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob mis rhwng yr ymwelwyr iechyd a'r Arweinydd Diogelu. Yn hanesyddol, ni fu cofnodion o'r cyfarfodydd hyn, ond caiff y drefn hon 	<p>Dr R Ratcliffe</p>	<p>1.2.2023</p> <p>Tystiolaeth: Cofnodion Cyfarfodydd</p>

<p>practis (e.e. ymwelwyr iechyd a'r tîm nyrsys ardal</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi amserlen o gyfarfodydd ar waith ar gyfer y practis cyfan Defnyddio amser dysgu gwarchoddedig i annog unigolion i rannu'r gwersi a ddysgir o fewn timau clinigol 		<p>bellach ei chyflwyno a nodir amserlenni ar ein rota meddygon teulu.</p> <ul style="list-style-type: none"> Rydym hefyd wedi dechrau cynnal cyfarfodydd Gofal Lliniarol bob deufis, sy'n cynnwys staff clinigol, Staff Gofal Lliniarol a Nyrsys Ardal. Caiff cofnodion eu llunio o'r cyfarfodydd hyn. <p>Caiff amserlen ei llunio a'i harddangos ar safle'r ddwy feddygfa. Caiff hefyd ein hanfon drwy ein Calendr Outlook.</p> <p>Fel yr esboniwyd yn ystod yr ymweliad, nid yw Aneurin Bevan wedi rhoi amser gwarchoddedig llawn ar gyfer cynnal y pedair sesiwn DPP bob blwyddyn na'r chwe sesiwn dysgu gwarchoddedig sydd i'w cynnal bob blwyddyn o dan y Contract newydd. Rydym wedi cau rhannau o'r feddygfa sawl gwaith at y diben hwn ar</p>	<p>Sian Whitcombe</p> <p>Sian Whitcombe</p>	<p>1.2.2023</p> <p>Parhaus</p> <p>Tystiolaeth: Tystysgrifau Hyfforddiant</p>
---	--	---	---	---

<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cofnodion ar gyfer cyfarfodydd clinigol • Ailddechrau cynnal arfarniadau staff blynyddol. 		<p>gyfer DPP ond ni allwn ddefnyddio'r drefn hon i ddarparu hyfforddiant/dysgu i bob un oherwydd y cyfyngiadau a osodir gan y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Fodd bynnag, rydym wedi llwyddo i gwblhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llywio Gofal • Hyfforddiant IRIS <p>Caiff cyfarfodydd eu ffurfioli a chaiff cofnodion eu cymryd.</p> <p>Caiff amserlen ei llunio</p>	<p>Sian Whitcombe</p> <p>Suzanne Griffiths</p>	<p>Parhaus</p> <p>Tystiolaeth: Darparu copi o'r cofnodion</p> <p>1.2.2023</p> <p>Tystiolaeth: Darparu copi o'r amserlen</p>
--	--	--	--	---

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sian Whitcombe

Teitl swydd: Partner Rheoli

Dyddiad: 13.1.2023